# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

*Atebwyd y cwestiynau gan y Trefnydd ar ran Prif Weinidog Cymru.*

### Cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru ac Arweinwyr Cynghorau Gogledd Cymru

**C6 Alun Pugh:** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd polisi ar gyfer y gogledd, a wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i gwrdd ag arweinwyr cynghorau gogledd Cymru? (OAQ8998)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Fel cydlynydd gwaith y weinyddiaeth yng ngogledd Cymru, mae Prif Weinidog Cymru yn ymweld yn rheolaidd ag amrywiaeth eang o unigolion a mudiadau ac yn cysylltu â hwy. Mae wedi cyfarfod ag arweinwyr gwahanol awdurdodau lleol ar sawl achlysur ac mewn sawl gwahanol gyd-destun. Mae ei gydweithwyr yn y Cabinet hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â materion yng ngogledd Cymru sydd yn dod o fewn eu gwahanol gyfrifoldebau.

Pe gofynnid iddo, byddai Prif Weinidog Cymru yn falch o gyfarfod ag arweinwyr yr awdurdodau lleol ar y cyd a byddai'n gwneud trefniadau o'r fath drwy ymgynghori gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

*Atebwyd cwestiynau 7 i 12 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Goblygiadau'r Ewro i Gymru

**C13 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro i Gymru pan ddaw'n weithredol yn 2002? (OAQ8980) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Cynaliadwy a Chynhwysiant Cymdeithasol (Hybu Dealltwriaeth y Cyhoedd)

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd y Cynulliad yn hybu dealltwriaeth y cyhoedd o ddatblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol? (OAQ8989) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cydlynu Polisïau ar gyfer Gogledd Cymru (Cyfrifoldebau Prif Weinidog Cymru)

**C15 Janet Ryder:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei gyfrifoldebau am gydlynu polisïau ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ8999) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Effeithiau Negyddol Gwerth Uchel y Bunt yng Nghymru

**C16 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ei drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am leddfu effeithiau negyddol gwerth uchel y bunt sterling yng Nghymru? (OAQ8978)

**Andrew Davies:** Mae Prif Weinidog Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU lle trafodir amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys cyflwr yr economi. Mae sefyllfa Corus wedi bod yn elfen ganolog o'r cyfarfodydd hyn yn ddiweddar.

Ysgrifennodd Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, at ei gydweithwyr yr haf diwethaf, gan awgrymu y dylid sefydlu grŵp o Weinidogion i gefnogi'r sector gweithgynhyrchu. Bydd Prif Weinidog Cymru neu ei ddirprwy, Michael German, yn mynychu'r cyfarfodydd hynny gyda Gweinidog o Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, aelodau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig.

Trefnir y cyfarfod cyntaf yn y dyfodol agos. Mae'r agenda'n debygol o gynnwys cyflogaeth a sgiliau, delwedd y diwydiant gweithgynhyrchu a materion ariannol.

**Cabinet y Cynulliad (Tryloywder)**

**C17 David Lloyd:** A oes gan Brif Weinidog Cymru gynlluniau i wneud Cabinet y Cynulliad yn fwy tryloyw? (OAQ8990) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dirprwyaeth y DU yng Nghyngor y Gweinidogion yr UE**

**C18 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y broses i gynnwys aelodau ei Gabinet yn nirprwyaeth y DU yng nghyfarfodydd Cyngor Gweinidogion yr UE? (OAQ8985) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hyrwyddo Cyfranogiad Cymunedau yn Natblygiad Cymdeithasol, Economaidd a Chelfyddydol Cymru**

**C19 Richard Edwards:** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi beth mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cyfranogiad cymunedau yn natblygiad cymdeithasol, economaidd a chelfyddydol Cymru? (OAQ8981) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymgynghori ar Bolisi (Cabinet y Cynulliad a San Steffan)**

**C20 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y modd y mae Cabinet y Cynulliad a San Steffan yn ymgynghori ar bolisi? (OAQ8988) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Marchnata ac Ail-ddelweddu Cymru**

**C21 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf i farchnata ac ail-ddelweddu Cymru? (OAQ8972)

**Andrew Davies:** Mae gwella delwedd ryngwladol Cymru yn un o flaenoriaethau'r Cynulliad a gwnaethpwyd gwaith i ddatblygu agwedd gydlynol ar lefel Cymru-gyfan, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Yn ddiweddar, cyfarfu Prif Weinidog Cymru â nifer o fuddiannau allweddol i drafod sut y gellid hyrwyddo delwedd Cymru'n well. Ynghyd â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, mae Prif Weinidog Cymru yn ystyried y materion a godwyd yn y cyfarfod hwnnw a'r camau pellach sydd eu hangen ar y Cynulliad.

**CBI (Partneriaeth gyda Busnes)**

**C22 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei gyfarfod diwethaf gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain ynghylch partneriaeth gyda busnes? (OAQ8994) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Cyngor Prydeinig**

**C23 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Cyngor Prydeinig i sicrhau y rhoddir pwyslais digonol i Gymru yng ngweithgareddau'r Cyngor Prydeinig ledled y byd? (OAQ8996) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Polisïau sydd yn Berthnasol i'r Alban a Chymru

**C24 John Griffiths:** Pa drafodaethau mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Gweinidog Cyntaf newydd yr Alban ynghylch datblygu polisïau sydd yn berthnasol i'n dwy wlad? (OAQ8977) ***Tynnwyd yn ôl.***

## 'Rhoi Cymru yn Gyntaf'

**C25 David Melding:** A yw'r rhaglen 'Rhoi Cymru yn Gyntaf' wedi disodli 'Gwellcymru.com' fel fframwaith polisi'r Cabinet? (OAQ8975) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Trefniadau Etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol (Sefydlu Comisiwn Annibynnol)

**C26 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei gynlluniau i sefydlu comisiwn annibynnol i ymchwilio i bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ8997) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Pwyllgor Materion Ewropeaidd

**C27 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ymateb ei Lywodraeth i'r argymhellion ar gyfer diwygio'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd? (OAQ8984) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Dydd Gŵyl Dewi Sant

**C28 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, ynghylch Dydd Gŵyl Dewi Sant? (OAQ8973) [W]

**Andrew Davies:** Mae Prif Weinidog Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â Paul Murphy i drafod amryw o faterion.